

Cofnodion cyfarfod Ionawr 7^{fed} 2021

Preseanol: Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Dilys Evans, Tony Parry, Alun Price, Elin Hedd, Cyngorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc).

1. **Dymunodd** y Maer Flwyddyn Newydd Dda i bawb ac anfonodd ein cofion at y Cynghorwyr sy'n gwarchod eraill. Estynnodd groeso arbennig i Elin Hedd, aelod newydd i'r Cyngor. Derbyniwyd ymddiheuriadau Sue Davies, Sharon Evans, Eluned Jones, Carol Rowlands a John Caradog Williams.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 10, 2020.
4. **Materion y Clerc:**
 - i. Derbyniwyd data GanBwyll am oryrru ar Heol Ffrydan yn 2019: allan o gyfanswm o 278 Hysbysiad o Fwriad i Erlyn am oryrru, roedd 14 ar gyfer ardal côd post LL23 7, sy'n cyfateb i oddeutu 5%. Dywedodd Elin Haf fod lorïau yn ogystal â cheir yn goryrru'n arw. Ychwanegodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan fod Cyngor Gwynedd wedi apwyntio Swyddog o'r Adran Iechyd a Diogelwch i gydlynu holl agweddau diogelwch yn ardal Ysgol Godre'r Berwyn, ac i ganfod y ffordd orau i wario £25,000 ar Lwybrau Diogel i'r ysgol. Bydd hyn i gyd yn gwneud yr ardal yn ddiogelach i bawb.
 - ii. Ymateb Heddlu Gogledd Cymru i sylwadau am gyflymder ymateb i alwad brys: gobeithir y bydd aelod o'r Heddlu yn gallu ymuno yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror.
 - iii. Tynnodd y Clerc sylw at yr angen i geisiadau am nawdd gynnwys y manylion angenrheidiol. Oherwydd y cyfnodau clo Covid, cytunwyd i drosglwyddo unrhyw arian na hawlir yn Chwefror i'r flwyddyn ariannol nesaf, a chynnig cyfle pellach i ymgeisio am nawdd pan ddaw'r cyfnod clo i ben. Tynnwyd sylw y bydd nawdd i'r Grŵp Busnes yn cael ei drin yn yr un modd a cheisiadau gan grwpiau eraill (gyda therfyn o £300). Disgwylir anfonebau a manylion ariannol gyda phob cais.
 - iv. Coed y Stryd Fawr: cysylltodd Swyddog Amgylcheddol NMWTRA i ddweud fod prosiect ar y gweill i ymdrin â choed y Stryd Fawr; cytunodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan i drafod y mater ymhellach gyda'r Swyddog.
 - v. Derbyniwyd gwybodaeth gan Warden y Llyn fod meysydd parcio Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu cau yn ystod y cyfnod clo.
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan. Yn ogystal â rhannu'r wybodaeth am ddiogelwch yn ardal Ysgol Godre'r Berwyn, dywedodd y byddai'n mynychu cyfarfod i drafod dyfodol adeiladau Neuadd Buddug ac Ysgol Bro Tegid - y ddau adeilad yn eiddo i Gyngor Gwynedd. Dywedodd fod y ganolfan Profi Covid wedi agor ar y Grin; bydd canolfan brechu yn agor yn Y Bala. Bydd ef a'r Clerc yn cyfarfod gyda Swyddog i drafod cyfraniad y Cyngor at y cyfleusterau cyhoeddus, a'r ardoll parcio. Dywedodd fod y gwaith yng Nghyngor Gwynedd yn

mynd yn fwyfwy anoddach o dan yr amgylchiadau presennol, a'r staff yn gwegian dan bwysau. Diolchwyd i'r Staff am gynnal y gwasanaethau ac i'r Cynghorydd am ei waith.

6. **Cyfleusterau Cyhoeddus ac ardoll parcio:** ceir adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf.
7. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry ac e-bost cynhwysfawr Andrew Basford sy'n cydlynu prosiect Llyn Tegid. Mae'n fwriad i gychwyn ar y gwaith yn ystod Haf 2021 ac ar hyn o bryd mae arolygon ecolegol yn parhau i gael sylw. Derbyniwyd gyda diolch ei gynnid i roi cyflwyniad i'r Cyngor yng nghyfarfod mis Mawrth.
8. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd a thrafodwyd adroddiad yr Is-bwyllgor Cyllid (e-bostiwyd). Nodwyd y bwriad i brynu cyfrifiadur at wasanaeth y Cyngor. Derbyniwyd yr argymhelliad o £27,000 ar gyfer lefel y Praesept 2021-22. Golyga hyn fod tŷ Band D yn talu £2.60 y flwyddyn yn fwy o dreth cyngor na'r llynedd. Cytunwyd i hyn.

9. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth lawn am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, yn cynnwys cais am ad-daliad cynnal Y Domen.
- ii. Cytunwyd i dalu'r anfonebau
 - a) Addurniadau'r Nadolig Siop Kel £131.90; Coed S Wood £60
 - b) Archwilio Cymru £238.79
 - c) Grŵp Busnes /Awen Meirion: Canu ar y Stryd Fawr £300
 - d) Cyflog (mis Rhagfyr) a PAYE

10. **Materion Cynllunio:** Dim cais.

11. **Gohebiaeth:** Diolchwyd am adroddiad Cylch yr Iaith ar Dwristiaeth. (*e-bostiwyd*)
Diolchwyd i Rhys Evans a'r Clerc am eu cyfraniadau at yr Ymgynghoriad gan Barc Cenedlaethol Eryri.

12. **Partneriaeth Penllyn:** nid oedd adroddiad y mis hwn.

13. Asedau'r Cyngor:

- i. Derbyniwyd neges gan Carol Rowlands fod cyflwr yr asedau'n dderbyniol.
- ii. Ciosg y Stryd Fawr – derbyniwyd gwybodaeth fod Cyfrinfa Seiri Rhyddion Y Bala yn talu am brynu ac am osod di-ffib yn y ciosg wrth Ganolfan Bro Tegid. Mae Tomos Hughes wedi derbyn y manylion cyswllt. Cytunwyd i ysgrifennu i ddiolch yn fawr iawn i'r Gyfrinfa am eu haelioni ac i'w holi am sut yr hoffent cael eu cydnabod yn gyhoeddus am eu cyfraniad.

14. Materion lleol y Cynghorwyr Tref:

- i. Heol Tegid – dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan y bydd y pafin anwastad yn derbyn arolwg a sylw yn fuan.

- ii. Yr angen am gwrbyn isel er mwyn helpu person mewn cadair olwyn i groesi'r ffordd ar y Stryd Fawr i'r gorllewin o'r Llew Gwyn - addawodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i dynnu sylw swyddogion at hyn.
- iii. Cytunwyd i longyfarch Tirion Thomas ar ennill gwobr BBC Arwyr Tawel ac am ei gwaith yn yr ardal. Roedd yn destun balchder mawr i'r ardal ei bod wedi ei chydabod.

15. **Dyddiad a lleoliad** y cyfarfod nesaf: 4/2/21 am 7.00 pm (trwy gyfrwng Teams)

Amser gorffen: 8.15pm